# SUL CYFFREDIN 22

**GALARNAD 1:1-6; SALM 37:1-9;**
**2 TIMOTHEUS 1:1-14; LUC 17:5-10**

## ● Gweddi agoriadol

Boed i Dduw, a'n dygodd ni i'r lle hwn,
dderbyn yr emynau a'r gweddïau a ddywedwn yma,
a boed i'r cariad sy'n ein huno yn ei ras
fod yn fendith i ni drwy'r dydd.

## ● Moliant

Ynot ti, Arglwydd, yr ymddiriedwn;
yn dy gariad llawenhawn,
achos does neb arall
y gallwn droi ato,
sy'n gwybod ein hanghenion
cyn i ni ofyn,
yn darllen ein calonnau
ac ateb ein gofyn.

Ynot ti, Arglwydd, yr ymddiriedwn;
ar dy heddwch y dibynnwn,
achos does neb arall
y gallwn droi ato,
sy'n tawelu ein heneidiau,
yn dwyn rhyddhad,
a, phan fyddwn wedi blino,
yn cael gorffwys yn ei freichiau.

● **Cyffes**

Arglwydd, down â'n momentau 'bron â bod' atat.
Pan gododd y cyfle i ddwyn dy enw
i mewn i sgwrs a ninnau bron â gwneud.
Pan gawsom gyfle i helpu un mewn angen,
a bron â llwyddo.
Pan ffromwyd ni gan anghyfiawder,
a'n hysbryd yn fflam i wneud gwahaniaeth,
bu bron i ni wneud.
Pan glywsom dy alwad i ddilyn llwybr arall,
a bron â gwneud.

Maddau ein hofnusrwydd, ein harafwch
i fyw y bywyd a arddelwn.
Down â'n momentau 'bron â bod'.
Drwy dy Ysbryd nertha ein bywydau,
er mwyn i'th enw gael ei ogoneddu
a'n 'bron â bod' yn troi yn 'wastad'.

## ● Diolch

Am rodd ffydd,
sy'n gweld heibio'r foment bresennol
ac yn edrych at dy dragwyddoldeb,
diolchwn i ti.

Am rodd ffydd,
bach fel hedyn mwstard,
  ond gyda'r fath rym
yn y symlrwydd hwnnw,
diolchwn i ti.

Am rodd ffydd,
a roir i'r rhai sydd ond yn gofyn,
eu calon ar agor yn ddiymhongar,
diolchwn i ti.